Adferiad

Lwfans Gofalwr: Galwad Llywodraeth y DU am Dystiolaeth

Ymateb Adferiad

18/08/26

1. Ble mae gan ofalwyr enillion sy'n amrywio, mae'r Adran ('DWP'), yn bresennol, yn edrych i weld a ellir dod o hyd i batrwm o enillion sy'n galluogi cyfrifo cyfartaledd enillion dros nifer o wythnosau. Gall y cyfnod a ddefnyddir amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol. Gwyddom y gall y rheolau presennol fod yn anodd i'w deall, yn enwedig ble mae enillion yn amrywio, ac rydym eisiau deall sut y gallwn wella'r ffordd y mae hyn yn cael ei egluro a'i gymhwyso. Mae gennym ddiddordeb ym mha welliannau, os o gwbl, fyddai'n gallu cefnogi gofalwyr sydd â chyflogau sy'n amrywio, yn well. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut mae'r system yn cydbwyso rhagweladwyedd (gallu deall o flaen llaw sut y bydd enillion yn cael eu trin) a hyblygrwydd (adlewyrchu amgylchiadau unigol).

   Pa mor dda ydych chi'n deall y rheolau presennol ar sut y gallai enillion effeithio ar Lwfans Gofalwr pobl?

   Ateb:
   Dywedodd ein defnyddwyr gwasanaeth eu bod yn ei chael yn anodd i ddeall y rheolau a'r system bresennol.

2. Sut y gellid gwella'r system i gefnogi gofalwyr sydd ag enillion sy'n amrywio yn well? A ddylai'r Adran edrych i roi ffyrdd mwy rhagweladwy yn eu lle er mwyn cyfrifo cyfartaledd enillion yntau parhau gyda'r dull presennol?

   Ateb:

   Credai Adferiad nad yw y dull presennol o gael mynediad i enillion yn adlewyrchiad digonol o realiti gofalu ochr yn ochr â chyflogaeth, i ofalwyr sydd ar gontractau banc, sesiynol, ac oriau sero neu fel arall mewn gwaith anrhagweladwy. Gall cyfrifoldebau gofalu amrywio, fel y gall cyfleoedd sydd ar gael i weithio. Gall system sy'n seiliedig ar newidiadau tymor byr, felly, greu ansicrwydd sylweddol i ofalwyr a'i gwneud yn anodd i ddeall os bydd derbyn gwaith ychwanegol yn effeithio ar eu hawliau.

   Amlygodd tystiolaeth o ymgysylltiad profiad byw Adferiad yr anawsterau arbennig a wynebir gan ofalwyr sydd ag enillion sy'n amrywio o wythnos i wythnos. Disgrifiodd un gofalwr weithio ar sail ar-alwad, gydag incwm yn dibynnu ar y galw ac felly yn amhosibl i'w ragweld. Gwnaethant esbonio y byddai system gyfrifo cyfartaledd fwy rhagweladwy yn rhoi mwy o sicrwydd ariannol ac yn lleihau'r risg o ofalwyr yn gwrthod gwaith oherwydd eu bod yn pryderu am ennill mwy na'r trothwy enillion yn anfwriadol o fewn cyfnod penodol. Nododd eraill yr "effaith si-so" a grëwyd gan oriau sy'n amrywio a'r risg o ordaliadau ble mae gofalwyr yn ei chael yn anodd i ddeall sut mae newidiadau mewn enillion yn effeithio ar eu hawliau.

   Rydym felly'n cefnogi cyflwyno dull mwy rhagweladwy a thryloyw o gyfrifo cyfartaledd enillion, yn hytrach na pharhau gyda'r dull presennol. Byddai cyfnod cyfrifo cyfartaledd sydd wedi ei osod, megis yn fisol neu dros nifer o fisoedd, yn adlewyrchu yn well batrymau cyflogaeth sy'n amrywio ac yn lleihau'r pwysau gweinyddol sy'n gysylltiedig ag adrodd ar newidiadau mynych. Dylai unrhyw gyfnod cyfrifo cyfartaledd fod yn ddigon hir i adlewyrchu amrywiaethau dilys heb greu oediadau wrth addasu'r hawliad ble mae newid sylweddol mewn amgylchiadau yn cymryd

lle. Er hynny, ni fydd cyfrifo cyfartaledd yn ei hun yn datrys yr holl broblemau mae gofalwyr yn eu hwynebu. Mae'n rhaid i'r system ddod gydag arweiniad clir, hygyrch ac amserol, yn cynnwys enghreifftiau ymarferol yn dangos sut mae'r mathau gwahanol o incwm a threfniadau gwaith yn cael eu trin. Dylid ysgrifennu'r wybodaeth mewn iaith blaen ac wedi ei dylunio ar gyfer pobl a allai fod ag amser neu hyder cyfyngedig i lywio'r system fudd-daliadau. Gall y cymhlethdod presennol adael gofalwyr yn agored i niwed o gamgymeriadau osgoiadwy a gordaliadau, gan greu pwysau ariannol ac emosiynol ychwanegol.

Yn fwy sylfaenol, dylai unrhyw bolisi gydnabod nad yw ennill cyflog yn golygu bod cyfrifoldebau gofalu wedi lleihau neu ddiflannu. Pwysleisiodd nifer o bobl wrth ymateb i waith ymgysylltu Adferiad eu bod yn dal i ddarparu gofal sylweddol neu lawn-amser beth bynnag yw eu horiau gwaith. Dylai unrhyw ddiwygiad, felly, geisio cefnogi gofalwyr i gynnal perthynas gyda chyflogaeth ble maent yn dymuno gwneud hynny, yn hytrach na chreu ymyl clogwyn ariannol sy'n annog yn erbyn gwaith.

Byddai dull mwy rhagweladwy nid yn unig yn cynnig mwy o sicrwydd ariannol, byddai hefyd yn rhoi mwy o hyder i ofalwyr i barhau'n gysylltiedig i gyflogaeth heb orfod dewis rhwng gwaith a'r cyfrifoldebau gofalu sy'n parhau i fod yn ganolog i'w bywydau.

3. Fyddai cyfrifo cyfartaledd enillion dros gyfnodau byr, penodol yn helpu gofalwyr? Er enghraifft cyfrifo cyfartaledd enillion dros gyfnod o 8 neu 16 wythnos bob amser. Os mai 'byddai' yw'r ateb, beth fyddai'r cyfnod wythnosau gorau?

Ateb:
Credwn y gallai cyfrifo cyfartaledd enillion dros gyfnod penodol roi mwy o ragweladwyedd a thegwch i ofalwyr sydd ag incwm cyflogaeth sy'n amrywio. Dengys ein hymgysylltiad gyda rhai sydd â phrofiad byw y gall gofalwyr wynebu ansicrwydd sylweddol ble mae enillion yn amrywio o wythnos i wythnos, er bod eu cyfrifoldebau gofalu yn parhau i fod yn gyson. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl sy'n gweithio ar sail banc, sesiynol, ar-alw neu dymor byr, ble gallai cyfleoedd i weithio fod yn amrywiol a thu hwnt i reolaeth yr unigolyn.

Mae yna gefnogaeth ymhlith y bobl rydyn ni'n eu cefnogi am gyfnodau cyfrifo cyfartaledd 8 ac 16 wythnos. Gwelwyd cyfnod 8 wythnos gan rai fel balans rhesymol rhwng hyblygrwydd a rhagweladwyedd, tra nododd eraill y byddai cyfnod hirach yn adlewyrchu patrymau cyflogaeth afreolaidd yn well.

Ar y cyfan, byddai Adferiad yn cefnogi cyfnod cyfrifo cyfartaledd wyth wythnos fel y dull arferol, ar yr amod bod gan ofalwyr yr opsiwn i ofyn am gyfnod cyfrifo cyfartaledd hirach, ble byddai hyn yn adlewyrchu eu hamgylchiadau yn well. Efallai y byddai cyfnod 16 wythnos yn fwy priodol ar gyfer pobl gyda phatrymau cyflogaeth afreolaidd iawn, tymhorol neu dymor byr. Er hynny, ni ddylai fod yna ofyniad i ofalwyr i lywio proses gymhleth dim ond er mwyn cael mynediad i system sydd ddim yn adlewyrchu eu hamgylchiadau gwirioneddol.

Yr egwyddor pwysicaf yw y dylai'r system fod yn ddigon rhagweladwy, cymesur a hyblyg i ddiwallu gwahanol batrymau o gyflogaeth. Nid oes patrwm cyflogaeth syml ymhlith gofalwyr, ac mae risg o ymagwedd anhyblyg yn creu rhwystrau newydd i'r rhai hynny nad yw eu

hamgylchiadau yn ffitio i mewn i fodel safonol. Gallai cyfrifoldebau gofalu fod yn gyson tra mae cyfleoedd cyflogaeth yn amrywio'n sylweddol, a dylai'r system gydnabod y gwahaniaeth yma.

I gyd-fynd â'r mecanwaith cyfrifo cyfartaledd, felly, dylid bod arweiniad clir, gofynion adrodd syml, ac amddiffyniadau rhag gordaliadau. Fe ddylai gofalwyr allu deall o flaen llaw sut y bydd cymryd gwaith ychwanegol yn effeithio ar eu hawliau, yn hytrach na darganfod yn ddiweddarach bod cynnydd dros dro mewn enillion wedi arwain i golled yn eu cefnogaeth neu ordaliad.

Yn fwy sylfaenol, bu i lawer o ymatebwyr i'n hymgysylltiad gwestiynu os ddylai'r trothwy enillion fod yn berthnasol i'r Lwfans Gofalwr o gwbl. Mae Adferiad yn cydnabod bod hwn yn gwestiwn ehangach na sgôp y cynnig hwn, ond credwn ei fod yn bwysig bod unrhyw ddiwygiad yn cael ei asesu yn erbyn pwrpas sylfaenol y Lwfans Gofalwr, sef i gydnabod ac i gefnogi'r cyfraniad sylweddol a wneir gan ofalwyr di-dâl, yn hytrach na'u cosbi am gynnal cysylltiad gyda chyflogaeth.

4. Mae'r Adran yn archwilio'r posibiliadau ar gyfer disodli terfyn enillion ymyl clogwyn wythnosol y Lwfans Gofalwr gyda thapr enillion. Ar hyn o bryd, mae'r taliadau Lwfans Gofalwr yn stopio os yw enillion yn mynd uwchben y terfyn wythnosol. Un dewis arall posibl fyddai i swm y Lwfans Gofalwr ostwng yn raddol wrth i enillion godi uwchben swm penodol, yn hytrach na stopio'n gyfan gwbl fel rŵan. Gelwir hyn yn dapr enillion. Mae yna wahanol ffyrdd y gallai hyn weithio. Byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau am raddfa unrhyw dapr a'r lefel enillion mae'n cael ei gymhwyso iddo, tra'n sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr.

   Os byddai'r Lwfans Gofalwr yn cael ei ostwng yn raddol wrth i enillion godi (tapr enillion), pa ddull fyddai orau gennych?

   Ateb:
   Galluogi pobl i ennill mwy cyn i'r Lwfans Gofalwr ddechrau gostwng, ac yna ei ostwng yn gyflymach (ateb aml-ddewis o ganlyniad i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth).

5. Beth ddylai fod yn fwyaf pwysig pan yn dylunio unrhyw newidiadau i sut mae enillion yn effeithio ar y Lwfans Gofalwr? Rhestrwch yn nhrefn blaenoriaeth yr hyn sydd fwyaf pwysig i chi, os gwelwch yn dda.

   Ateb:
   Bod yn syml ac yn hawdd i'w ddeall
   Bod yn rhagweladwy (gwybod o flaen llaw sut mae enillion yn effeithio ar daliadau)
   Galluogi hyblygrwydd ar gyfer gwahanol amgylchiadau
   Lleihau y risg o ordaliadau
   Cadw'r system yn fforddiadwy

6. Pa ffactorau ddylai benderfynu ble mae tapr enillion yn dechrau ac yn gorffen? Er enghraifft, a ddylai ddechrau ar derfyn enillion y Lwfans Gofalwr (£204 yn bresennol) neu islaw neu uwchben hyn? Faint ydych chi'n meddwl y gallai rhywun ei ennill ynghyd â gofalu cyn i'r tapr orffen?

Ateb:
Credwn y dylid dylunio unrhyw dapr enillion i gefnogi gofalwyr i aros mewn gwaith heb greu ymyl clogwyn ariannol, tra'n cydnabod bod cyfrifoldebau gofalu yn parhau waeth faint mae rhywun yn ennill. Dylai'r lefel ble mae'r tapr yn dechrau ac yn gorffen, felly, ystyried y cyfraniad sylweddol mae gofalwyr yn ei wneud, costau byw, lefelau cyflog a realiti cydbwyso cyflogaeth gyda chyfrifoldebau gofalu.

Yn seiliedig ar farnau a gasglwyd drwy'r gwaith ymgysylltiad profiad byw a gynhaliwyd gennym o fewn Adferiad, roedd yna gefnogaeth gref i'r tapr ddechrau ar neu uwchben terfyn enillion presennol y Lwfans Gofalwr o £204 yr wythnos, yn hytrach nac islaw hynny. Teimlai llawer o'r ymatebwyr bod y terfyn presennol yn rhy gyfyngol ac y gallai atal gofalwyr rhag cymryd gwaith ychwanegol neu gynyddu eu horiau. Nododd un ymatebwr yr anawsterau arbennig a wynebir gan ofalwyr mewn cyflogaeth â thâl isel, gan esbonio y gall cyfyngiadau ar enillion eu gadael mewn sefyllfa ble na allent wella eu safle ariannol na lleihau eu dyled.

Roedd yna bryder hefyd y gallai tapr yn dechrau ar y trothwy presennol barhau i greu ymyl clogwyn ariannol os yw'r gostyngiad yn y Lwfans Gofalwr yn rhy serth. Byddai gostyngiad graddol mewn cefnogaeth wrth i enillion gynyddu yn cynnig mwy o sicrwydd ac yn lleihau y risg bod gofalwyr yn waeth eu byd ar ôl cymryd gwaith ychwanegol. Fel dywedodd un ymatebwr, ni ddylai pobl golli cefnogaeth am eu bod yn gweithio, ond gallai'r gefnogaeth ostwng yn raddol wrth i enillion gynyddu.

Mae Adferiad, felly, yn cefnogi'r syniad o dapr sy'n dechrau uwchben y terfyn enillion wythnosol presennol o £204, gyda'r pwynt cychwyn wedi ei osod ar lefel sy'n rhoi sgôp ystyrlon i ofalwyr i weithio cyn i'w hawliau ddechrau gostwng. Awgrymwyd bwynt cychwyn o tua £400 yr wythnos, gan ofalwr oedd â mynediad i wasanaethau Adferiad, fel lefel isafswm posibl. Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol ar y trothwy presennol ac fe fyddai yn adlewyrchu realiti gofalwyr sy'n ymgymryd â gwaith rhan amser, banc neu gyflogaeth eraill hyblyg yn well.

Er hynny, roedd yna gefnogaeth sylweddol hefyd i gael gwared o'r terfyn enillion neu'r tapr yn gyfan gwbl. Teimlai rhai ymatebwyr na ddylid bod prawf modd trwy enillion i'r Lwfans Gofalwr, gan ddadlau bod gofalu yn ei hun yn cyfri fel cyfraniad sylweddol ac na ddylai pobl golli cefnogaeth oherwydd eu bod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu. Dylid ystyried y barnau hyn ochr yn ochr gyda'r amcan ehangach o sicrhau nad yw'r system, yn anfwriadol, yn cosbi gofalwyr am barhau i fod yn weithredol yn economaidd.

Ble byddai tapr yn cael ei gadw, ni ddylai'r pwynt ble mae'n dod i ben gael ei benderfynu gan ffigwr mympwyol penodol yn unig. Dylai adlewyrchu os yw rhywun yn ymgymryd â chyflogaeth ystyrlon a chynaliadwy ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu. Dylid adolygu'r lefel yn gyson hefyd yn erbyn chwyddiant, y Cyflog Byw Cenedlaethol, a newidiadau mewn costau byw.

Dengys y dystiolaeth hefyd bwysigrwydd caniatáu digon o hyblygrwydd ar gyfer amrywiaethau mewn enillion. I ofalwyr sy'n ymgymryd â gwaith banc afreolaidd, efallai na fydd cyflog wythnos sengl yn cynrychioli eu lefel cyflogaeth arferol. Dylai unrhyw dapr, felly, weithio ochr yn ochr â mecanwaith cyfrifo cyfartaledd mwy rhagweladwy, fel nad yw shifftiau ychwanegol achlysurol yn arwain i ostyngiad anghymesur mewn cefnogaeth.

Yn y pen draw, dylai pwrpas y diwygiad fod i sicrhau nad yw gofalwyr yn cael eu gorfodi i ddewis rhwng gofalu a sicrwydd ariannol. Gallai tapr wedi ei ddylunio'n dda alluogi gofalwyr i gynyddu eu henillion a pharhau i fod yn gysylltiedig i gyflogaeth tra'n parhau i dderbyn cydnabyddiaeth a chefnogaeth am y cyfrifoldebau gofalu sylweddol maent yn ymgymryd â hwy.

7. Sut fyddai'r Adran yn cyfathrebu tapr enillion? Beth fyddai'n helpu pobl i ddeall sut fyddai gostyngiad graddol yn y taliad Lwfans Gofalwr yn effeithio arnynt yn ymarferol?
Ateb:
Dylai unrhyw dapr enillion ddod law yn llaw gyda chyfathrebiad clir, hygyrch a thryloyw, fel bod gofalwyr yn gallu deall sut y bydd newidiadau yn eu henillion yn effeithio ar eu Lwfans Gofalwr cyn iddynt wneud penderfyniadau am waith. Byddai cyflwyno tapr yn ychwanegu cymhlethdod i system sydd eisoes yn anodd, a byddai cyfathrebu gwael yn cynyddu'r risg o ddryswch, pryder a gordaliadau.

Pwysleisiodd yr adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn gryf bod angen iaith blaen ac esiamplau ymarferol, bywyd go iawn. Dylai'r wybodaeth osgoi jargon ac egluro yn glir beth ddylai gofalwr ddisgwyl ei dderbyn ar wahanol lefelau o enillion. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl sydd ag enillion sydd ddim yn sefydlog, yn cynnwys y rhai hynny sy'n gweithio ar gontractau oriau sero, drwy asiantaethau, ar sail banc, neu mewn rolau sesiynol.

Nodwyd gyfrifwr neu amcangyfrifwr ar-lein syml yn gyson fel un o'r teclynnau mwyaf defnyddiol. Dylai gofalwyr allu mewnbynnu eu henillion disgwyliedig a gweld yn syth sut y byddai hyn yn effeithio ar eu Lwfans Gofalwr. Byddai hyn yn eu galluogi i ddeall goblygiadau ariannol cymryd gwaith ychwanegol ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau deallus heb orfod llywio arweiniad cymhleth neu gyfrifo eu hawliau eu hunain.

Byddai gwybodaeth weledol hefyd yn werthfawr. Awgrymodd nifer o ymatebwyr ddefnyddio graffiau, siartiau neu ddehongliadau gweledol eraill i ddangos y berthynas rhwng cynnydd mewn enillion a gostyngiad yn y Lwfans Gofalwr. Er enghraifft, gallai graff syml ddangos sut mae hawliau yn newid ar draws gwahanol lefelau enillion. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i unigolion sy'n cael anhawster dadansoddi gwybodaeth ysgrifenedig neu rifol.

Dylai cyfathrebu hefyd adlewyrchu'r ffaith bod gan ofalwyr wahanol lefelau o lythrennedd ariannol, hyder digidol ac anghenion hygyrchedd. Dylai'r wybodaeth fod ar gael felly mewn ystod o fformatau ac fe ddylai egluro'r system mewn lefel manylder priodol heb fod yn ddiangen o gymhleth. Gellid cefnogi arweiniad byr, hawdd i'w ddeall gyda gwybodaeth fwy manwl ar gyfer y rhai sydd well ganddynt hynny.

Yn bwysig, ni ddylid disgwyl i ofalwyr ddibynnu ar wybodaeth ar-lein yn unig. Nododd rhai ymatebwyr werth cefnogaeth wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, yn cynnwys hybiau neu wasanaethau cynghori presennol ble gall gofalwyr siarad gyda rhywun am eu hamgylchiadau unigol. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau weithio'n agos gyda sefydliadau trydydd sector i sicrhau bod gwybodaeth gyson a manwl gywir yn cyrraedd gofalwyr drwy sefydliadau maent eisoes yn ymgysylltu gyda hwy.

Dylai cyfathrebu fod yn rhagweithiol yn hytrach na dibynnu ar ofalwyr i adnabod newidiadau eu hunain. Gallai hysbysiadau drwy SMS neu e-bost rybuddio pan mae'r enillion maent wedi eu nodi

yn debygol o effeithio ar eu hawliau, tra gallai datganiadau taliadau gynnwys esboniad gweledol syml o sut y cyfrifwyd y taliad. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i ofalwyr i adnabod ac i gwestiynu unrhyw wallau posibl cyn iddynt arwain i ordaliadau neu anawsterau ariannol sylweddol.

Dylai unrhyw gyfathrebiad ynghylch tapr hefyd ei wneud yn glir beth mae gan ofalwyr yr hawl iddo, yn hytrach na ffocysu yn unig ar yr amgylchiadau ble gallai eu taliadau gael eu lleihau. Nododd nifer o ymatebwyr ddiffyg ymwybyddiaeth ehangach ymhlith gofalwyr ynghylch y budd-daliadau a'r gefnogaeth sydd ar gael. Felly, dylid gosod gwybodaeth glir am y Lwfans Gofalwr o fewn gwybodaeth ehangach ynghylch cefnogaeth eraill y gallai gofalwyr fod â hawl iddynt.

Yn gyffredinol, dylai gofalwyr allu deall y canlyniadau ariannol o weithio mwy cyn iddynt wneud penderfyniadau ynghylch derbyn gwaith ychwanegol. Byddai cyfuniad o arweiniad mewn iaith blaen, enghreifftiau ymarferol, esboniadau gweledol, cyfrifwyr personol a mynediad i gefnogaeth ddynol yn rhoi mwy o hyder i ofalwyr ac yn lleihau'r risg o ddryswch, pryder a gordaliadau.

8. Mae tua dwy ran o dair o bobl sy'n derbyn Lwfans Gofalwr hefyd yn derbyn Credyd Cynhwysol. Gall hyn gynnwys cefnogaeth ychwanegol i ofalwyr trwy ychwanegiad gofalwr. Ble mae rhywun yn derbyn y ddau fudd-dal, fe ystyrir y Lwfans Gofalwr fel incwm, sy'n golygu bod swm y Credyd Cynhwysol yn cael ei gynyddu gan yr ychwanegiad gofalwr ond yna'n cael ei leihau gan yr incwm o'r Lwfans Gofalwr. Mae'r Lwfans Gofalwr hefyd yn rhoi hwb i gyfraniad Yswiriant Cenedlaethol mwy hael na'r Credyd Cynhwysol, ond telir y Credyd Cynhwysol ar raddfa uwch na'r Lwfans Gofalwr a thriniaeth mwy hael o enillion. Mae'r Lwfans Gofalwr yn fudd-dal unigol sy'n anwybyddu cyfalaf neu incwm ar wahân i enillion, ble mae'r Credyd Cynhwysol yn fudd-dal aelwyd gyda phrawf modd. Mae'r Adran yn ystyried sut fyddai'r systemau yn gweithio gyda'i gilydd orau yn y dyfodol fel ei fod yn haws i'w deall.

   Sut fyddai'r Adran yn sicrhau bod y gefnogaeth i ofalwyr di-dâl trwy'r Lwfans Gofalwr a Chredyd Cynhwysol yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd ar gyfer y rhai hynny sy'n derbyn y ddau?

   Ateb:
   Dylid symleiddio'r rhyngweithiad rhwng y Lwfans Gofalwr a'r Credyd Cynhwysol a'i wneud yn fwy tryloyw, fel nad oes rhaid i ofalwyr lywio dwy system ar wahân a chymhleth i ddeall y gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Gall y rhyngweithiad presennol rhwng y ddau fudd-dal fod yn anodd i'w ddeall, yn enwedig i ofalwyr sydd eisoes yn cydbwyso cyfrifoldebau gofalu sylweddol gyda phwysau cyflogaeth ac ariannol.

   Dylai fod yn flaenoriaeth allweddol i sicrhau bod gofalwyr yn gallu deall eu cyfanswm incwm aelwyd, yn hytrach na gorfod gweithio drwy'r rhyngweithiad technegol rhwng budd-daliadau unigol. Mae angen i bobl allu deall beth fydd eu cyfanswm incwm os ydynt yn cynyddu eu horiau, yn lleihau eu horiau, yn cymryd gwaith ychwanegol neu'n profi newid yn eu hamgylchiadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig os fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cyflwyno tapr enillion ar gyfer Lwfans Gofalwr, oherwydd y dylai gofalwyr allu gweld sut mae newidiadau mewn enillion yn effeithio ar y ddau fudd-dal gyda'i gilydd.

   Amlygodd waith ymgysylltiad profiad byw Adferiad yr angen am fwy o integreiddio ac awtomeiddio rhwng y ddwy system. Ble mae gofalwyr eisoes wedi darparu gwybodaeth enillion

neu wybodaeth berthnasol eraill i'r Adran Gwaith a Phensiynau neu'r HMRC, ni ddylid bod angen iddynt adrodd dro ar ôl tro gyda'r un wybodaeth ar gyfer gwahanol fudd-daliadau. Gallai rhannu gwybodaeth a chyfrifiadau awtomatig leihau pwysau gweinyddol, lleihau gwallau a helpu i atal gordaliadau.

Rydym, felly, yn cefnogi datblygiad proses mwy integredig ac awtomataidd, gyda gwybodaeth enillion yn cael ei rhannu rhwng y systemau perthnasol ble'n bosibl. Gallai proses asesu neu gyfrifo sengl, yn y tymor hir, ei gwneud yn sylweddol haws i ofalwyr i ddeall beth mae ganddynt yr hawl iddo ac i leihau dyblygiad diangen.

9. Yn bresennol, mae 60% o dderbynwyr y Lwfans Gofalwr yn cael eu talu yn wythnosol o flaen llaw, tra mae 40% yn cael eu talu wythnos o flaen llaw a thair wythnos ar ei hôl hi. Byddai talu pedair wythnos ar ei hôl hi yn caniatáu mwy o amser ar gyfer adrodd ar a phrosesu newidiadau mewn amgylchiadau. Gallai hyn leihau gordaliadau. Byddai hefyd yn caniatáu i'r Adran wneud y defnydd gorau o'r data enillion gan yr HMRC.

   Beth fyddai'r buddion a'r anfanteision o dalu Lwfans Gofalwr bedair wythnos ar ei hôl hi?

   Ateb:
   Mae Adferiad yn cydnabod y gallai talu Lwfans Gofalwr bedair wythnos ar ei hôl hi leihau gordaliadau a gwella cywirdeb taliadau trwy ganiatáu mwy o amser i adrodd ar ac i brosesu newidiadau mewn enillion neu amgylchiadau. Gallai hefyd alluogi'r Adran Gwaith a Phensiynau i wneud gwell defnydd o ddata enillion yr HMRC, gan leihau yr angen i ofalwyr adrodd ar wybodaeth dro ar ôl tro a rhoi mwy o sicrwydd bod taliadau yn adlewyrchu eu hamgylchiadau gwirioneddol. Mae lleihau gordaliadau yn bwysig, oherwydd y gall hawliadau ad-dalu annisgwyl greu pwysau ariannol ac emosiynol sylweddol i ofalwyr.

   Er hynny, mae yna risg sylweddol y gallai symud i bedair wythnos ar ei hôl hi greu caledi ariannol i ofalwyr sy'n dibynnu ar Lwfans Gofalwr fel rhan o'u hincwm aelwyd rheolaidd. Efallai bod rhai gofalwyr eisoes yn dygymod ar incymau isel neu afreolaidd ac fe allai fynd heb daliad am bedair wythnos arwain i anawsterau gyda thalu biliau, rheoli costau byw neu fynd i ddyled. Gallai hyn fod yn arbennig o heriol i ofalwyr mewn cyflogaeth ansicr. Ni ddylai unrhyw symudiad i dalu ar ei hôl hi, felly, drosglwyddo risg ariannol y system fudd-daliadau i'w rhoi ar ofalwyr sydd eisoes yn darparu gofal di-dâl sylweddol.

   Os byddai'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyflwyno taliad bedair wythnos ar ei hôl hi, byddai amddiffyniadau trosiannol cryf a chyfathrebiadau clir yn hanfodol. Ni ddylid gadael gofalwyr heb incwm yn ystod y trawsnewidiad, a dylid ystyried trefniadau amgen ar gyfer y rhai hynny mewn risg arbennig o galedi. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd ystyried bod unrhyw ddull talu newydd yn syml, yn rhagweladwy, ac yn cael ei ddylunio o amgylch realiti ariannol gofalwyr, fel bod yr amcan o leihau gordaliadau ddim yn dod ar draul cynnydd yn y straen ariannol ac emosiynol i ofalwyr.

10. Mae Lwfans Gofalwr ar gael i fyfyrwyr ar gyrsiau rhan-amser o lai na 21 awr yr wythnos. Cefnogir fyfyrwyr llawn-amser sy'n darparu gofal o 35 awr neu fwy yr wythnos drwy'r systemau cyllid myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn creu gwahaniaeth rhwng y rhai hynny sy'n astudio islaw ac uwchlaw'r trothwy.

    Sut allwn ni adnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl orau i gyfuno eu hastudio gyda'u cyfrifoldebau gofalu ble y gallent? Sut mae'r 21 awr yn dylanwadu ar benderfyniadau o gwmpas astudio?

    Ateb:
    Gall y rheol 21 awr presennol berswadio gofalwyr rhag dilyn cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chymwysterau, hyd yn oed ble y gallai hyn wella eu cyfleoedd cyflogaeth a'u sicrwydd ariannol yn y dyfodol. Nid yw'r gwahaniaeth, sy'n seiliedig yn bennaf ar oriau astudio, o angenrheidrwydd yn adlewyrchu realiti cyfrifoldebau gofalu. Efallai bod gofalwr yn parhau i ddarparu gofal sylweddol tra'n astudio y tu hwnt i'r trothwy, a byddai mwy o hyblygrwydd yn galluogi gofalwyr i ddilyn eu haddysg heb orfod dewis rhwng eu rôl gofalu a'u rhagolygon i'r dyfodol.

    Dylid adnabod gofalwyr di-dâl yn gynnar ac yn rhagweithiol gan brifysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant, gyda gwybodaeth glir am y gefnogaeth ariannol, gwasanaethau llesiant, dysgu hyblyg, gofal seibiannau a gofal amnewidiol. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau weithio gyda darparwyr addysg a systemau cyllid myfyrwyr i sicrhau bod gofalwyr yn deall sut y bydd astudio yn effeithio ar eu hawliau cyn gwneud penderfyniadau am eu haddysg. Dylid ystyried cyfrifoldebau gofalu parhaus unigolyn hefyd, yn hytrach na dibynnu ar y nifer o oriau a dreulir yn astudio yn unig.

    Rydym yn argymell adolygu'r trothwy 21 awr i sicrhau nad yw'n creu rhwystr diangen i addysg. Dylai cefnogaeth ariannol alluogi gofalwyr i ddatblygu sgiliau a chymwysterau tra'n parhau i ddarparu gofal, gan gydnabod y gall addysg wella cyfleoedd cyflogaeth tymor hir a lleihau ansicrwydd ariannol. Byddai cynnydd mewn mynediad i astudio hyblyg, i ofal seibiant, i ofal amnewidiol a chefnogaeth wedi'i theilwra hefyd yn helpu gofalwyr i oresgyn y cyfyngiadau amser ymarferol o gyfuno addysg gyda chyfrifoldebau gofalu sylweddol.

11. Rydym yn cydnabod y gallai pobl fod â barnau ehangach am Lwfans Gofalwr a'r ffordd mae'n gweithio. A oes yna agweddau eraill o'r Lwfans Gofalwr yr ydych yn meddwl fyddai'n ddefnyddiol i'r Adran i'w deall?

    Ateb:
    Dylid ystyried pwrpas a gwerth ehangach Lwfans Gofalwr fel rhan o unrhyw ddiwygiad. Mae gofalwyr di-dâl yn darparu gofal sylweddol, rownd y cloc yn aml, a gall eu cyfrifoldebau amrywio yn dibynnu ar anghenion y person maent yn eu cefnogi. Nid yw lefel bresennol y Lwfans Gofalwr yn adlewyrchiad digonol o gyfraniad ariannol, ymarferol ac emosiynol gofalwyr di-dâl na gwerth ehangach y gofal maent yn ei ddarparu i deuluoedd, cymunedau a'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llawer o ofalwyr yn profi caledi ariannol, ynysiad, a phwysau sylweddol o ganlyniad i'w rôl gofalu. Dylid ystyried, felly, os gellid ehangu'r gefnogaeth y tu hwnt i'r taliad ei hun, er enghraifft trwy fynediad i ofal seibiant, gofal amnewidiol neu ffurfiau eraill o gefnogaeth ymarferol a llesiant.

Credwn hefyd y dylai'r system gydnabod yn well nad yw gofalwyr o angenrheidrwydd yn stopio gofalu pan maent yn mynd i mewn i gyflogaeth, yn cyrraedd oed pensiwn y wlad, neu'n profi newidiadau yn eu hamgylchiadau gofalu. Mae llawer o ofalwyr eisiau cadw cysylltiad gyda'r gwaith am resymau ariannol, cymdeithasol a llesiant, ond gall pryderon ynghylch terfynau enillion, gordaliadau a cholled mewn hawliau eu hannog i beidio gwneud hyn. Dylai'r rheolau ddarparu ar gyfer patrymau gweithio modern a chydnabod y gall gofalu barhau yn gyfochrog â chyflogaeth sylweddol gyda thâl, yn cynnwys ble mae cyfrifoldebau gofalu yn cymryd lle yn ystod y nos. Ble mae rôl gofalu yn dod i ben, yn enwedig yn dilyn profedigaeth, dylid hefyd ystyried cyfnod trosiannol byr o gefnogaeth barhaus i alluogi amser i'r cyn-ofalwr i ymaddasu, i gael mynediad i gefnogaeth ac i ystyried cyflogaeth neu opsiynau eraill.

Yn olaf, dylai Lwfans Gofalwr fod yn syml, yn deg, yn dryloyw ac yn ddigonol i ddarparu cydnabyddiaeth ariannol ystyrlon am ofal di-dâl. Gall cymhlethdod y system bresennol annog pobl cymwys i beidio ymgeisio a chreu pryder ynghylch torri'r rheolau enillion yn ddamweiniol neu dderbyn gordaliadau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cywirdeb y budd-dal a sicrhau bod y gefnogaeth yn cyrraedd y rhai hynny sy'n darparu gofal di-dâl sylweddol, ond dylid cyflawni hyn drwy brosesau cymhwysedd a dilysrwydd clir yn hytrach na chosbi gofalwyr yn anfwriadol. Dylai unrhyw ddiwygiad gydnabod pwysigrwydd gofalu di-dâl fel cyfraniad hanfodol i gymdeithas a cheisio sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi'n ariannol i barhau i ddarparu gofal diogel a chynaliadwy.